



Gower College Swansea
Coleg Gŵyr Abertawe

Cynllun Strategol 2016-2020

Rhagoriaeth mewn Addysg a Hyfforddiant i Bawb

Croeso i Goleg Gŵyr Abertawe gan Gadeirydd y Corff Llywodraethu a'r Pennaeth a Phrif Weithredwr

Roedd ffurfio'r coleg newydd, Coleg Gŵyr Abertawe, yn Awst 2010 – y cyntaf o'r Colegau Addysg Bellach newydd, mwy o faint yng Nghymru – yn ddatblygiad pwysig iawn i Abertawe ac ardal De-orllewin Cymru.

O'r Bwrdd Llywodraethwyr i reolwyr y Coleg, staff darlithio a staff cymorth, rydym ni i gyd yn ymwybodol o'r heriau, y cyfleoedd a'r disgwyliadau sydd gennym ni a'n rhanddeiliaid ar gyfer ein Coleg, ac rydym ni i gyd wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r heriau hyn a sicrhau bod pawb yn ymfalchïo yn llwyddiant ein myfyrwyr.

Mae Abertawe a Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn ardal ddeinamig i fyw a gweithio ynddi. Er bod ein treftadaeth addysgol yn destun balchder i ni, nid ydym yn cymryd unrhyw beth yn ganiataol. Mae angen i ni gadw ein henw da fel Coleg sy'n darparu'r addysgu a dysgu o'r safon uchaf ac, ar yr un pryd, ymestyn amrywiaeth ein darpariaeth a gwasanaethau i ateb anghenion ein cymunedau.

I wneud hyn byddwn yn parhau i roi ein dysgwyr yn gyntaf trwy eu hysbrydoli i ddysgu a chael y canlyniadau gorau posibl, a thrwy werthfawrogi, ysbrydoli, herio a chynorthwyo ein staff, sef ein hadnodd pwysicaf oll. Byddwn hefyd yn monitro ac adolygu ein cynnydd yn gyson trwy osod targedau ystyrlon a mesuradwy i'w meincnodi yn erbyn y gorau yn y sector, yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Darparu addysg o'r safon uchaf yw ein cenhadaeth a'n diddordeb pennaf a gwyddom y gall y gwaith a wnawn ysgogi datblygiad economaidd a chyfiawnder cymdeithasol.

Y Cynllun Strategol hwn yw ein templed ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Mae'n amlinellu ein blaenoriaethau allweddol a sut y byddwn yn eu cyflawni, a chafodd ei lunio ar ôl ymgynghori â'n staff, ein myfyrwyr a'n rhanddeiliaid. Wrth gwrs, mae pedair blynedd yn amser hir ym myd addysg, yn enwedig yng Nghymru. Bydd heriau a chyfleoedd newydd yn codi a bydd rhaid i'n Coleg fod yn hyblyg, yn rhagweithiol ac ymateb yn gyflym gan gynnal ein gwerthoedd craidd a'n hegwyddorion yr un pryd.

Hwn yw ein hymrwymiad i chi, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid, ac edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio â chi ar y cam nesaf yn nhaith ein Coleg – a diolch i chi am gymryd yr amser i ddarllen y ddogfen hon a'ch diddordeb yng Ngholeg Gŵyr Abertawe.

Colin Cornelius

Colin Cornelius

Mark Jones

Mark Jones

“ Mae'r darlithwyr yn anhygoel, maen nhw i gyd yn wybodus iawn ac yn addysgu i safon uchel iawn. ”

Safon Uwch Gwyddoniaeth

Cyflwyniad

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn Goleg Addysg Bellach mawr gyda dros 4,500 o fyfyrwyr amser llawn a 10,000 o ddysgwyr rhan-amser sy'n dod o Abertawe a'r siroedd cyfagos. Mae'n gweithredu o chwe lleoliad ar draws Dinas a Sir Abertawe gan gynnwys campysau yn Nhycoc, Sgeti a Gorseinon. Ar hyn o bryd mae gan y Coleg drosiant o dros £37 miliwn ac mae'n un o'r prif gyflogwyr yn yr ardal gyda thua 1,000 o staff.

Mae'r Coleg yn gweithredu o fewn economi cymysg o ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16. Ar hyn o bryd mae 14 ysgol uwchradd yn Abertawe ac mae chweched dosbarth gan saith ohonynt, felly ceir amgylchedd cystadleuol ar gyfer recriwtio dysgwyr ôl-16. Mae dau sefydliad addysg uwch yn Abertawe hefyd ac mae'r Coleg yn cydweithio'n agos â nhw – Prifysgol Abertawe a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant. Yn ogystal, mae Colegau AB yn ein dau awdurdod lleol cyfagos – Castell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin (Coleg Sir Gâr) y mae'r Coleg yn cydweithio'n agos â nhw ond yn cystadlu â nhw hefyd mewn rhai meysydd. Tan yn ddiweddar roedd dau brif ddarparwr dysgu seiliedig ar waith yn Abertawe – sef y Coleg a Gwasanaethau Dysgu Gydol Oes a Hyfforddiant Cyflogaeth (LLETs) Dinas a Sir Abertawe. Fodd bynnag, yn Ebrill 2016 cytunodd y ddau sefydliad i drosglwyddo'r contract a'r staff i'r Coleg, felly erbyn hyn mae'r Coleg yn llwyr gyfrifol am gyflenwi'r contract £4 miliwn o'i safle yn Fforestfach.

Bu enw da gan y Coleg erioed am safon ei addysgu a dysgu ar draws pob un o'i gampysau.

Mae hyn yn cynnwys ein darpariaeth Safon Uwch sy'n cael ei haddysgu ar gampws Gorseinon lle

mae dros 1,500 o fyfyrwyr (y garfan fwyaf o fyfyrwyr Safon Uwch yng Nghymru) yn astudio amrywiaeth o bron 50 o wahanol bynciau Safon Uwch. Mae cyfraddau llwyddiant cyffredinol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn gyson gyda graddau A* – B ac A* – C 10% yn uwch. Ar draws y Coleg mae dros 1,000 o fyfyrwyr yn symud ymlaen i addysg uwch bob blwyddyn ac ar gyfartaledd mae 200 yn cofrestru i astudio ym Mhrifysgolion Russell Group, gyda 10 o'r rhain yn symud ymlaen i Rydgrawnt. Mae'r Coleg yn un o'r hybiau peilot 'seren' ac yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Caergrawnt trwy'r rhaglen AU+.

Mae'r ddarpariaeth alwedigaethol yn gryf iawn hefyd ar draws y Coleg gyda nifer fawr o fyfyrwyr yn ennill 'rhagoriaeth' a 'theilyngdod' a chyfraddau dilyniant ardderchog. Mae myfyrwyr o'r Coleg yn ennill gwobrau Cymru a'r DU yn gyson ac yn 2016 enillodd y Coleg y teitl 'Coleg Cyfrifeg y Flwyddyn' ar draws y DU, a chafodd ei roi ar y rhestr fer ar gyfer 'Coleg AB y Flwyddyn'.

Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn gyfnod hynod o brysur i'r Coleg. Yn ogystal â throsglwyddo'r contract dysgu seiliedig ar waith, mae wedi caffael budd o 80% mewn cwmni hyfforddi preifat arobryn, Track Training sydd, er ei fod wedi'i leoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn gweithio ar draws Lloegr yn bennaf. Ym mis Ebrill cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi cymeradwyo'r rhaglen newydd gwerth £16.8m Sgiliau ar gyfer Diwydiant 2 a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ar draws ardal De-orllewin Cymru. Y Coleg sy'n arwain y rhaglen hon a bydd yn rhoi cyfle i ni ddatblygu ymhellach ein hamrywiaeth o gyrsiau a gwasanaethau o dan arweiniad cyflogwyr.





Cenhadaeth y Coleg


Ysbrydoli a chefnogi ein
dysgwyr i **gyflawni** eu
potensial trwy ddarparu
addysg a hyfforddiant
o'r **ansawdd gorau.**

Gweledigaeth y Coleg

Bod y dewis gorau i ddysgwyr.

Gwerthoedd Craidd

Seilir gweledigaeth y coleg ar ddatblygu diwylliant cryf a chadarnhaol gyda'r gwerthoedd craidd canlynol wrth wraidd y weledigaeth honno:



Cyfeiriadau Strategol

Rydym wedi nodi pedwar cyfeiriad strategol 'craidd' a nodau cysylltiedig a fydd yn helpu'r Coleg i wireddu ei weledigaeth a'i genhadaeth yn y dyfodol.

Y pedwar cyfeiriad strategol yw:

1. **Y DYSGWR** – rhoi'r dysgwr wrth wraidd popeth a wnawn
2. **ANSAWDD** – sicrhau'r ansawdd gorau posibl ym mhopeth a wnawn
3. **EFFAITH** – cael yr effaith gadarnhaol fwyaf posibl ar les economaidd a chymdeithasol dysgwyr unigol yn Abertawe a De-orllewin Cymru
4. **RHAGORIAETH** – ceisio bod yn sefydliad rhagorol, sy'n tyfu mewn modd cynaliadwy, yn arloesi ac yn buddsoddi



Cyfeiriad Strategol 1 Y Dysgwr

Rhoi'r dysgwr wrth wraidd popeth a wnawn.

Ein nod sylfaenol yw gweld pob un o'n myfyrwyr yn llwyddo, pa bynnag cwrs y maent yn ei astudio. Byddwn yn gweithio i wneud eu profiad gyda ni yn un sy'n eu hysbrydoli a lle y teimlant eu bod wedi cael eu cydnabod a'u trin fel unigolyn sydd o bwys i ni. Byddwn yn cynnig profiad sy'n cyfoethogi, nid yn unig yn academiaidd neu yn nhermau cymwysterau, ond yn bersonol ac yn ddiwylliannol hefyd. Byddwn yn ceisio darparu rhwydwaith eang o gymorth i bob dysgwr i'w helpu i ddelio â'r heriau gwahanol y byddant yn eu hwynebu fel dysgwyr, a byddwn yn gweithio'n angerddol i sicrhau bod pob un o'n dysgwyr yn llwyddo.

Ein gwaith ni yw helpu pob un o'n dysgwyr i wella eu sgiliau a thrwy wneud hynny trawsffurfio eu bywydau mewn ffordd gadarnhaol. Ein nod sylfaenol yw rhoi iddynt yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad a fydd yn gwella eu cyfle o gael swydd, a rhoi iddynt y gwydnwch personol a'r meddylfryd mentrus fydd yn golygu eu bod wedi'u hymbaratoi'n well ar gyfer bywyd.



Rwy'n hapus iawn gyda'm cwrs a gyda'r Coleg ac rwy'n cael yr holl gymorth a chefnogaeth sydd ei angen i gyflawni fy nod. //

Lefel 3 Diploma mewn Therapiau Cyflenwol

Cyfeiriad Strategol 2 Ansawdd

Sicrhau'r ansawdd gorau posibl ym mhopeth a wnawn.

Credwn fod ein dysgwyr yn haeddu'r gorau ac felly byddwn yn ymdrechu i gyrraedd y safonau uchaf ym mhopeth a wnawn. Er mwyn gwireddu hyn, byddwn yn gosod targedau cadarn ac yn mesur yn drylwyr. Byddwn yn gwneud rheoli perfformiad yn elfen graidd yn y Coleg a bydd yr amgylchedd yn un heriol ac ymestynnol i ragori ynddo. Byddwn yn creu diwylliant o hunanymwybyddiaeth, myfyrio a beirniadaeth lle y byddwn yn adolygu ein perfformiad yn gyson ac yn gweithredu'n barhaus er mwyn gwella, a byddwn yn hyrwyddo gonestrwydd ac unplygrwydd.

Mae ein dysgwyr yn haeddu addysgu ysbrydoledig o safon uchel os ydynt am wireddu eu potensial. Mae ein staff yn haeddu cael eu cefnogi a'u hannog i fod yn addysgwyr ysbrydoledig, brwdfrydig ac angerddol. Cydnabyddwn mai pobl yw ein hadnodd pwysicaf. Byddwn yn parchu ac yn meithrin ein staff ac yn eu hannog i ymfalchïo yn eu Coleg. Byddwn yn hybu eu sgiliau arloesol a datrys problemau. Byddwn yn darparu hyfforddiant a chymorth i staff a fydd yn rhoi cyfle iddynt ddatblygu eu sgiliau i wynebu'r heriau o weithio mewn Coleg rhagorol. Cydnabyddwn mai'r gallu i addasu a newid yw'r un pwysicaf efallai yn yr economi newydd, a byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar feithrin y sgiliau hyn.



Cyfeiriad Strategol 3 Effaith

Cael yr effaith gadarnhaol fwyaf posibl ar les economaidd a chymdeithasol dysgwyr unigol yn Abertawe a De-orllewin Cymru.

Cydnabyddwn fod llwyddiant y Coleg yn seiliedig ar ei ganlyniadau. Felly mae'n hollbwysig i'r Coleg ddangos y gall gael canlyniadau arwyddocaol a gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i fywydau'r rhai sy'n dod yma. Credwn yng ngallu sylfaenol addysg i newid y byd, ond gwyddom hefyd fod rhaid mesur canlyniadau a bod yr hyn sy'n cael ei fesur yn cael ei gyflawni. Wrth benderfynu beth sy'n cael ei gyflawni byddwn yn sicrhau bod y Coleg yn cysylltu'n gyson â phob un o'i randdeiliaid ac o ganlyniad, bydd darlun clir iawn gennym, yn seiliedig ar dystiolaeth, o'r anghenion y mae'n rhaid i ni eu hateb.

Byddwn yn parhau i feithrin perthnasoedd cryf ag Adran Addysg a Sgiliau ac Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru ac asiantaethau cymorth busnes allweddol. Byddwn yn parhau i gael perthynas wych â Dinas a Sir Abertawe ac yn ceisio cydweithio mewn ffyrdd ystyrlon. Byddwn yn parhau i gryfhau cyfraniad y Coleg at yr agenda sgiliau drwy wella ein prosesau ymgysylltu â chyflogwyr, sicrhau ein bod wedi cysylltu â'u rhwydweithiau ac yn ymwybodol o'u hanghenion. Byddwn yn ceisio creu mwy o bartneriaethau a chynyddu cydweithio ar draws y sector addysg cyfan gyda'n hysgolion lleol, ein prifysgolion partner a cholegau addysg bellach eraill.

Cyfeiriad Strategol 4 Rhagoriaeth

Ceisio bod yn sefydliad rhagorol, sy'n tyfu mewn modd cynaliadwy, yn arloesi ac yn buddsoddi.

Credwn mai staff yw ein hadnodd mwyaf ac felly byddwn yn buddsoddi yn y sgiliau, yr offer a'r cymorth i ymrymuso ein pobl i fod yn rhagorol. Cydnabyddwn ein bod mewn cyfnod o newid mawr a byddwn yn cefnogi dysgu parhaus, gan felly ymrymuso ein pobl i reoli perfformiad, herio, ailystyried ac ail-lunio prosesau, rhannu gwybodaeth a darparu gwybodaeth o safon.

Credwn y bydd rheoli arian ac adnoddau yn parhau i fod yn un o'n heriau mwyaf yn y dyfodol. Byddwn yn ceisio cynhyrchu incwm ychwanegol yn hytrach na gorfod ceisio arbedion cost pellach ac, o ganlyniad, dibynnu llai ar gyllid Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ar yr un pryd byddwn yn adolygu modelau ac arferion cyflenwi yn barhaus er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl a'r enillion mwyaf ar fuddsoddiad i gyllidwyr. Un o'n prif flaenoriaethau fydd datblygu a diogelu ystad y Coleg er mwyn ateb anghenion cwsmeriaid yn y dyfodol.



Targedau ar gyfer 2016 – 2020

Mewn nifer o'r targedau cyfeirir at berfformiad y Coleg o'i gymharu â pherfformiad colegau AB eraill.

1. Ansawdd

- 1.1 Cyfraddau llwyddiant cyffredinol AB yn chwartil uchaf AB Cymru
- 1.2 Cyfraddau llwyddiant ym mhrif gymwysterau AB yn chwartil uchaf AB Cymru
- 1.3 Cyfraddau llwyddiant ym mhob maes cwricwlaidd yn uwch na throthwy Estyn ar gyfer rhagoriaeth
- 1.4 Cyfraddau llwyddiant prentisiaethau yn chwartil uchaf AB Cymru
- 1.5 Pob gradd yn 'rhagorol' yn arolygiadau Estyn yn y dyfodol.

2. Myfyrwyr

- 2.1 Cyfraddau boddhad dysgwyr AB yn chwartil uchaf AB Cymru
- 2.2 Cyfraddau boddhad dysgwyr AU yn yr hanner uchaf
- 2.3 Cyfraddau boddhad dysgwyr DSW yn chwartil uchaf AB Cymru

3. Cofrestriadau

- 3.1 Cofrestriadau amser llawn AB fel % o gyfanswm niferoedd cam pedwar i gynyddu gan 1% y flwyddyn
- 3.2 Cofrestriadau AU i gynyddu gan 5% y flwyddyn
- 3.3 Cofrestriadau rhyngwladol i gynyddu gan 5% y flwyddyn
- 3.4 Cofrestriadau DSW yn cyfateb i'r gwerth contract

4. Cyllid

- 4.1 Gwarged a ragwelir (£) – cyn FRS 17 – yn y tri uchaf yng Nghymru
- 4.2 % dibyniaeth ar grantiau AB yn y chwartil isaf
- 4.3 Buddsoddiad parhaus yn ystad a seilwaith y Coleg

5. Staff

- 5.1 Cyfraddau boddhad staff yn chwartil uchaf arolwg AB
- 5.2 % cyfraddau cymwysterau staff i gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn

6. Rhagoriaeth

- 6.1 Staff a dysgwyr y Coleg yn ceisio ennill dwy wobwr genedlaethol bob blwyddyn

Rhestr o'r Campysau

Campws Tycoch

Heol Tycoch
Abertawe
SA2 9EB

Campws Gorseinon

Heol Belgrave
Gorseinon
Abertawe
SA4 6RD

Campws Hill House

Heol Cocyd
Abertawe
SA2 0FD

Campws Llwyn y Bryn

Heol Walter
Abertawe
SA1 4QA

Hyfforddiant GCS

Llys Jiwbilí
Abertawe
SA5 4HB

Plas Sgeti

Lôn Sgeti
Abertawe
SA2 8QF



Mae cysylltiadau cryf gan y darlithwyr ag amrywiaeth o gyflogwyr lleol, felly rydym ni'n cael profiad ymarferol gwych i gyd-fynd â'n hastudiaethau academiaidd. //

HND Peirianeg





Gower College Swansea
Coleg Gŵyr Abertawe

Cynllun Strategol 2016-2020

Rhagoriaeth mewn Addysg a Hyfforddiant i Bawb